

## Aros a Chwarae Casnewydd

Business support to set up a new Welsh language After School Childcare Club in Newport

Aros a Chwarae Casnewydd is a new Welsh medium Out of School club run by a private provider within the County of Newport South East Wales. The club is based within and operates for the children of Ysgol Gymraeg Casnewydd for children 3-12 years.

The club offers a child centred environment meeting the social physical, intellectual, creative and emotional needs of each individual child. Nic Speight the owner of Aros a Chwarae has been very busy during the summer months working towards registration with Care Inspectorate Wales (CIW) and will hopefully be a registered Welsh medium childcare soon, offering the first registered welsh medium Out of School Childcare places in the county.

The club is run by the very experienced Playwork qualified, Welsh speaking Teaching Assistants of the school who the children adore. However, as an English speaker, Nic felt her biggest challenge was ensuring that she as the responsible person would fulfil all the requirements of CIW as a Welsh setting. With the support of the Newport CBDOs, Nic was able to receive invaluable support with CIW registration as well as support from the Welsh language CBDO in accessing and amending bilingual policies. The creative thinking of Ceri Innes-Parry, Ysgol Gymraeg Casnewydd Headmistress ensured that Casnewydd would not only have a Welsh language club but a Welsh medium club that has robust governance.

*"It has been a priority for me to restart a Welsh Club outside of school hours for a number of reasons. As a school where only 2% of the parents can speak Welsh, it is essential for the children to be able to speak Welsh in an atmosphere different from an educational one, and to see the Welsh language as a living language, where the children can play together and communicate with others.*

In addition, this area is a disadvantaged one, and therefore, trying to assist parents/carers to be able to return to work, or undertake college or higher education courses is an essential part of working together with our parents/guardians. It was a priority for the Club to register with Care Inspectorate Wales so that the parents/guardians could take advantage of the Welsh Governments financial help, which is available for childcare.

Finally... Being able to offer the Teaching Assistants more hours on top of their salary as Assistants within the School, helps us as a School to keep our workforce. Any help to keep them, and to show them that I think creatively about ways to help them raise their wages is essential in maintaining the ethos and morale of the workforce.

My priority when searching for a provider was that I wanted the provider to take the lead in terms of arrangements and payments. The parents/guardians pay the providers directly, so I don't need to be involved at all. I also wanted the providers to be knowledgeable in terms of Safeguarding children so that I have faith in hem to follow purposeful and correct arrangements.

*The help I received from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs was fantastic! Siân and Clare guided me through the regulatory process as well as providing bilingual letters in order to advertise. It would also help with potential questions as well as referrals. They guided me through the process of collecting money and ensuring that the communities operate firmly in terms of security in place." Ceri Innes-Parry Headteacher Ysgol Gymraeg Casnewydd.*



## Aros a Chwarae Casnewydd

Cefnogaeth fusnes i sefydlu Clwb Gofal Plant Ôl-Ysgol yng Nghasnewydd

Mae Aros a Chwarae, Casnewydd yn glwb all-ysgol cyfrwng-Cymraeg newydd a gynhelir gan ddarparwr preifat yn Sir Casnewydd yn y De-ddwyrain. Mae'r clwb wedi'i leoli yn Ysgol Gymraeg Casnewydd ac yn gweithredu ar gyfer y plant sy'n ei mynychu, plant oed 3-12.

Mae'r clwb yn cynnig amgylchedd sy'n canolbwytio ar y plentyn gan ddiwallu anghenion corfforol cymdeithasol, deallusol, creadigol ac emosiynol pob plentyn unigol.

Mae Nic Speight perchenog Aros a Chwarae wedi bod yn brysur iawn yn ystod misoedd yr haf yn gweithio tuag at gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r gobaith yw y bydd yn fan gofal plant cyfrwng-Cymraeg cofrestredig yn fuan, yn cynnig lleoedd Gofal Plant cyfrwng-Cymraeg Allysgol am y tro cyntaf yn y sir.

Mae'r clwb yn cael ei redeg gan Gynorthwywyr Dysgu'r ysgol, rhai sy'n siaradwyr Cymraeg, ac yn Weithwyr Chwarae cymwysedig a phrofiadol iawn; ac mae'r plant yn dwlu arnyn nhw. Ond fel siaradwr Saesneg, teimlai Nic mai ei her fwyaf oedd sicrhau y byddai hi fel y person cyfrifol yn cyflawni holl ofynion AGC fel lleoliad Cymraeg. Gyda chefnogaeth ein Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant(SDBG) yng Nghasnewydd, llwyddodd Nic i dderbyn cefnogaeth amhrisiadwy gyda chofrestru ag AGC yn ogystal â chefnogaeth ein SDBG iaith-Gymraeg gyda chael mynediad at a diwygio polisiau dwyieithog. Sicrhaodd meddylfryd creadigol Ceri Innes-Parry, Prifathrawes Ysgol Gymraeg Casnewydd, y byddai gan Casnewydd nid yn unig glwb Cymraeg ond clwb cyfrwng-Cymraeg sydd â llywodraethiad cadarn.

*"Mae wedi bod yn flaenoriaeth i mi ailgychwyn Clwb Cymraeg y tu allan i oriau ysgol am sawl rheswm. Fel ysgol lle nad oes ond 2% o'r rhieni yn medru'r Gymraeg, mae'n hanfodol i'r plant fod yn medru'r Gymraeg mewn awyrgylch gwahanol i un addysgol, a gweld y Gymraeg yn iaith fyw, lle mae'r plant yn gallu chwarae gyda'i gilydd a chyfathrebu ag eraill.*

*Yn ogystal, mae'r ardal hon dan anfantais, ac felly, mae ceisio cynorthwyo rhieni/gofalwyr i allu dychwelyd i'r gwaith, neu wneud cyrsiau coleg neu addysg uwch yn rhan hanfodol o gydweithio gyda'n rhieni/gwarchodwyr. Roedd yn flaenoriaeth i'r Clwb gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fel y gallai'r rhieni/gwarcheidwaid fanteisio ar help ariannol Llywodraethau Cymru, sydd ar gael ar gyfer gofal plant.*

*Glo... Mae gallu cynnig mwy o oriau i'r Cynorthwywyr Addysgu ar ben eu cyflog fel Cynorthwywyr yn yr Ysgol, yn ein helpu ni fel Ysgol i gadw ein gweithlu. Mae unrhyw help i'w cadw, a dangos iddyn nhw fy mod i'n meddwl yn greadigol am ffyrdd i'w helpu i godi eu cyflogau yn hanfodol er mwyn cynnal ethos a morâl y gweithlu.*

*Fy mlaenoriaeth wrth chwilio am ddarparwr oedd fy mod eisiau i'r darparwr arwain o ran trefniadau a thaliadau. Mae'r rhieni/gwarchodwyr yn talu'r darparwyr yn uniongyrchol, felly does dim angen i mi fod yn rhan o gwbl. Ro'n i hefyd eisiau i'r darparwyr fod yn wybodus o ran Diogelu plant er mwyn bod â ffydd yn ddilyn trefniadau pwrrpasol a chywir.*

*Roedd yr help a gefais gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn wych! Fe wnaeth Siân a Clare fy arwain drwy'r broses reoleiddio yn ogystal â darparu llythyron dwyieithog er mwyn hysbysebu. Byddai hefyd yn helpu gyda chwestiynau posib yn ogystal ag atgyfeiriadau. Fe wnaethon nhw fy arwain drwy'r broses o gasglu arian a sicrhau bod y cymunedau'n gweithredu'n gadarn o ran y diogelu sydd ar waith." **Ceri Innes-Parry Pennaeth Ysgol Gymraeg Casnewydd.***

